



HM Courts &
Tribunals Service

Ymateb i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Iaith Gymraeg

Cyhoeddir yr ymateb hwn ar 10fed Mai 2018

Ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi

Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/>

Ymateb i'r Ymgynghoriad ar y Cynllun Iaith Gymraeg

Cynnwys

Cyflwyniad a manylion cyswllt	
Cyflwyniad a manylion cyswllt	4
Cefndir	5
Crynodeb o'r ymatebion	6
Ymatebion i gwestiynau penodol	8
Egwyddorion ymgynghori	14
Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr yr ymgynghoriad	15

Cyflwyniad a manylion cyswllt

Mae'r ddogfen hon yn ymateb i'r ymgynghoriad ar Gynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM)

Bydd yn cynnwys:

- cefndir yr adroddiad
- crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad
- ymateb i'r materion a godwyd
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn

Gellir cael mwy o gopïau o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori drwy gysylltu â Hywel Hughes yn y cyfeiriad isod:

Uned yr Iaith Gymraeg
Canolfan Cyfiawnder Caernarfon
Ffordd Llanberis
Caernarfon
Gwynedd
LL55 2DF

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/>

Gellir gwneud cais i gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall drwy gysylltu â'r cyfeiriad uchod.

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â GLITEM yn y cyfeiriad uchod.

Cefndir

1. Cyhoeddwyd y papur ymgynghori ar y “Cynllun Iaith Gymraeg” ar 11 Rhagfyr 2017 a daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 29 Ionawr 2018. Roedd yn gwahodd sylwadau ar Gynllun Iaith Gymraeg diwygiedig arfaethedig GLITEM (y “Cynllun”). Mae'r Cynllun yn seiliedig ar yr egwyddor yn Adran 5 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 sef y bydd GLITEM yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu Cyfiawnder yng Nghymru.
2. Gofynnwyd i ymatebwyr roi sylwadau ar dri chwestiwn penodol:
 - Ydych chi'n meddwl bod y Cynllun yn esbonio'n ddigon clir beth fydd gwasanaethau GLITEM yn eu darparu i'r cyhoedd, staff ac ynadon yng Nghymru?
 - Pa welliannau, os o gwbl, y byddech chi yn eu gwneud i'r Cynllun?
 - A oes unrhyw beth y dylem eu cynnwys yn y Cynllun a fydd yn ein cynorthwyo i ddarparu gwasanaeth Cymraeg gwell mewn Cymru sy'n newid yn barhaus?
3. Roedd modd i'r ymatebwyr gyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau ar bapur neu ar-lein naill ai'n Gymraeg neu'n Saesneg.
4. Rydym yn ddiolchgar i bawb a wnaeth ymateb i'n ymgynghoriad. Mae'r ymatebion a gafwyd yn ffynhonnell amhrisiadwy o safbwyntiau, gwybodaeth a syniadau a fydd yn sail i'n Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig.
5. Mae'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd, ein hymateb iddynt, a sut mae'r broses ymgynghori wedi dylanwadu ar y Cynllun diwygiedig. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

Crynodeb o'r ymatebion

6. Cafwyd deunaw o ymatebion i'r papur ymgynghori a daeth y mwyafrif ohonynt gan aelodau'r farnwriaeth a'r ynadaeth. Cafwyd hefyd ymatebion gan staff GLITEM, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Mudiad Dathlu'r Gymraeg, Heddlu De Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau.
7. Roedd yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad yn gadarnhaol. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â chynnwys y Cynllun Iaith Gymraeg arfaethedig, gan gynnwys ei ymrwymadau, ac roeddynt yn fodlon â'r broses ymgynghori.
8. Roedd y prif faterion a godwyd yn y sylwadau'n ymwneud â:
 - Cynlluniau GLITEM i hysbysebu swyddi 'Cymraeg yn hanfodol' yng Nghymru a mwy o eglurder yn y cynllun o ran pryd fyddwn yn hysbysebu swydd 'Cymraeg yn hanfodol' yn hytrach na 'Cymraeg yn ddymunol', ac os yw'n hanfodol, pa mor dda sydd angen i sgiliau Cymraeg yr ymgeiswyr fod
 - Eglurhad pellach ar y cyrsiau galwedigaethol y byddwn yn eu cynnig i'n staff drwy gyfrwng y Gymraeg
 - Sylw o ran a yw'r broses bresennol ar gyfer delio â chwynion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg o fewn y Gwasanaeth Profiant yn parhau i fod yr un fath
 - Roedd yr ymatebwyr yn falch o weld cyfeiriad yn y Cynllun tuag at ddefnyddio cyfieithwyr sy'n aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru pe na fyddai cyfieithwyr GLITEM yn gallu ymgymryd â'r gwaith yn fewnol
 - Sylw gan y farnwriaeth y dylai'r Cynllun nodi os yw tyst yn dymuno rhoi tystiolaeth yn Gymraeg a'i fod yn cael ei holi neu ei groesholi yn Saesneg, yna bod y tyst yn cael y dewis o gael y cwestiynau Saesneg wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg
 - Yr angen i gofnodi'n ffurfiol yn y Cynllun y trefniadau sydd mewn lle gyda Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru (cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel CCC) bod cyfieithu ar y pryd mewn gwrandawiaidau llys/tribiwnlys yn sgil arbenigol ac y cydnabyddir hyn ar ffurf Categori Aelodaeth Arbenigol o fewn categorïau aelodaeth CCC
 - Mi ofynnodd yr ymatebion a gafwyd gan yr Ynadaeth i GLITEM wneud mwy i hysbysu defnyddwyr y llys o'u hawl i siarad Cymraeg mewn gwrandawiaidau a sicrhau bod y Cynllun yn cael digon o gyhoeddusrwydd gan gynnwys o fewn yr Ynadaeth ei hun
 - Cafwyd sylwadau cadarnhaol o ran ymrwymiad GLITEM i ddarparu gwasanaethau digidol yn Gymraeg
 - Dywedodd un ymatebydd bod y galw am wasanaethau Cymraeg yn isel yng Ngogledd Ddwyrain Cymru
 - Eglurhad pellach ynghylch y defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y Llys Apêl a'r Uwch Dribiwnlys
 - Yr angen i gynnwys Barnwyr Cyswllt y Gymraeg fel unigolion sydd â diddordeb yn yr adran ar y rhai hynny sydd â 'Chyfrifoldeb am y Cynllun'
 - Er bod paragraff 5.22 y Cynllun yn nodi nad oes gan unrhyw un hawl i gael gwrandawiad Cymraeg (dim ond i siarad Cymraeg mewn gwrandawiad) efallai bod angen ailadrodd hyn yn yr adran benodol sy'n ymwneud â gwaith y Tribiwnlysoedd ac yn arbennig o ran gwrandawiaidau Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant

- Croesawyd yr ymrwymiad cadarn i'r iaith Gymraeg a gafwyd gan Brif Weithredwr GLITEM yn y Rhagair i'r Cynllun.
- Cafwyd ychydig o sylwadau ynghylch materion argraffyddol a semanteg
- Cafwyd un sylw ynghylch GLITEM yn cyhoeddi ei restr ei hun o dermau Cymraeg yn hytrach nag aros i'r rhain gael eu safoni
- Yr angen i gynnwys y farnwriaeth yn y cyfeiriad at y cyhoedd ym mharagraff 1.4 a oedd eisoes yn cynnwys cyfeiriadau at weithwyr proffesiynol cyfreithiol, awdurdodau lleol ac awdurdodau erlyn cyhoeddus
- Sylw ynghylch a fyddai yna gyfeiriad yn y Cynllun at y Llys Busnes ac Eiddo newydd
- Sylw y dylai'r Cynllun fanylu ar y cyrsiau yn ymwneud â'r Gymraeg y dylai staff newydd sy'n ymuno â'r sefydliad yng Nghymru eu cwblhau
- Cyfeirio at gyfieithu yn y llys fel cyfieithu ar y pryd

Ymatebion i gwestiynau penodol

1. Ydych chi'n meddwl fod y Cynllun yn esbonio'n ddigon clir beth fydd gwasanaethau GLITEM yn eu darparu i'r cyhoedd, staff ac ynadon yng Nghymru?

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod darpariaethau'r Cynllun yn ddigon clir.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r Cynllun gynnwys rhestr lawn o'r holl gyrsiau galwedigaethol sydd ar gael i staff trwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd ymateb arall a gafwyd gan aelod o'r Farnwriaeth yn gofyn am eglurder ar gyfer gwrandawiadau'r Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant ynghylch beth yn union yw'r gofynion cyfreithiol o ran defnyddio'r Gymraeg.

Cafwyd sylw gan y farnwriaeth y dylai'r Cynllun nodi os yw tyst yn dymuno rhoi tystiolaeth yn Gymraeg a'i fod yn cael ei holi neu ei groesholi yn Saesneg, yna dylai gael y dewis o gael y cwestiynau Saesneg wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg.

Gofynnodd aelod o staff a ddylai'r Cynllun nodi'n glir pa ddarpariaethau mae GLITEM yn eu cynnig o ran defnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw uchel lys neu uwch dribiwnlys yn dilyn cais i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr Uwch Dribiwnlys yn Llundain. Yn gysylltiedig â hyn cafwyd sylw gan y Farnwriaeth yn dweud petai'r Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn gwrandawriad llys neu dribiwnlys y tu allan i Gymru, yna dylai'r barnwr perthnasol fel mater o drefn gysylltu â Barnwyr Cyswllt y Gymraeg i gael arweiniad.

Yn debyg, crybwyllwyd a fyddai yna gyfeiriad at ddefnyddio'r Gymraeg yn y Llys Busnes ac Eiddo sy'n eistedd o bryd i'w gilydd yng Nghymru.

Roedd yr ymatebion gan Ynadon yn gofyn i WLITEM wneud mwy i roi gwybod i ddefnyddwyr y llys o'u hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawiadau ac i sicrhau bod y Cynllun yn cael cyhoeddusrwydd sylweddol o fewn yr Ynadaeth ei hun.

Er bod GLITEM yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o Saesneg i Gymraeg pan fydd tyst wedi dewis rhoi tystiolaeth yn Gymraeg ac yn cael ei holi yn Saesneg, mae angen nodi hyn yn y Cynllun.

Mi wnaeth un sylw godi'r mater y dylai'r hyfforddiant iaith Gymraeg y byddai angen i staff GLITEM ei gwblhau gael ei nodi'n gliriach yn y Cynllun

Ymateb GLITEM

O ran cyhoeddi rhestr o gyrsiau yr ydym yn eu darparu i staff trwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n anodd iawn llunio rhestr benodol gan fod llawer ohonynt yn codi ar sail ad hoc.

Mae gan GLITEM hanes da o geisio cynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn fewnol, ond mae'r adnoddau sydd ar gael yn gyfyngedig. Pe bawn yn gwybod y byddai'r staff yn gwerthfawrogi cael cwrs neu ddigwyddiad hyfforddi yn Gymraeg ac y byddai'n cael ei gefnogi, yna byddem yn ymateb yn gadarnhaol i'r cais. Yn wir, yn ddiweddar cynhaliwyd sesiwn Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl i staff yng Nghaernarfon yn Gymraeg ac roedd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael i'r rhai hynny nad oeddynt yn deall Cymraeg.

O ran eglurder ynghylch beth sydd raid i ni ei ddarparu'n gyfreithlon mewn gwrandawiadau Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant (SSCS), bydd yr Adran ar 'Gwrandawiadau Tribiwnlys, Profiant a'r Llys Gwarchod' yn cynnwys naratif i ddweud nad oes yna ofyniad i GLITEM ddarparu panel dwyieithog ond bydd yn ymdrechu i wneud hynny pan fyddwn yn gwybod bod tystiolaeth yn mynd i gael ei rhoi yn llafar yn Gymraeg. Fodd bynnag, oherwydd prinder aelodau panel sy'n feddygon

sy'n gallu siarad Cymraeg, ni fydd yn bosib ym mhob achos i wneud hyn ac mewn amgylchiadau o'r fath byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i hwyluso hyn.

Byddwn yn cynnwys cyfeiriad yn Adran 5 y Cynllun yn rhoi opsiwn i dyst sydd wedi dewis rhoi tystiolaeth yn Gymraeg i gael y cwestiynau Saesneg wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg fel a ganlyn: **"Bydd unrhyw dyst sydd wedi dewis rhoi tystiolaeth yn Gymraeg ond sy'n cael ei holi yn Saesneg gan Eiriolwr nad yw'n siarad Cymraeg, yn cael y dewis o gael y cwestiynau Saesneg wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg os bydd hynny'n gwneud y broses o roi tystiolaeth yn Gymraeg yn haws"**.

Er nad oes cyfeiriad yn y Cynllun at ddefnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd y tu allan i Gymru, rydym yn cytuno y byddai'n ddefnyddiol gwneud cyfeiriad uniongyrchol i'r uchel lysoedd a'r uwch dribiwnlysoedd. Felly, awgrymir cynnwys y naratif canlynol yn yr adran sy'n cyfeirio at ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawiadau y tu allan i Gymru.

"Yn y lle cyntaf, os ydym yn gwybod bod achos fydd yn cael ei wrando yn y Llys Apêl neu Uwch Siambr y Tribiwnlysoedd yn cynnwys cais i ddefnyddio'r Gymraeg, yna dylid gwneud darpariaeth i restru'r achos i'w wrando yng Nghymru lle y gwneir trefniadau i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Os bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal y tu allan i Gymru, a phan ddefnyddiwyd y Gymraeg wrth roi tystiolaeth yn y gwrandawiadau blaenorol sydd wedi arwain at yr apêl, yna dylai'r barnwr perthnasol gysylltu â Barnwyr Cyswllt y Gymraeg gyda'r bwriad y dylid caniatáu i'r Gymraeg gael ei defnyddio".

Dan baragraff 5.46 y Cynllun sy'n cyfeirio at ddefnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd y tu allan i Gymru, dylid ychwanegu'r naratif canlynol: **"Pan ddigwydd hyn dylai'r Barnwr gysylltu gyda Barnwyr Cyswllt y Gymraeg am gyngor"**.

Ychwanegwyd paragraff newydd 5.40 yn y Cynllun sy'n cyfeirio at y Llys Busnes ac Eiddo.

Mewn perthynas â gwneud mwy i roi gwybod i ddefnyddwyr y llys bod ganddynt hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawiadau ac i sicrhau bod y cynllun yn cael cyhoeddusrwydd sylweddol o fewn yr Ynadaeth fe wneir cyfeiriad at hyn bellach ym mharagraffau 5.28 ac 13.1.

O ran cyfieithu tystiolaeth a roddir ar lafar o'r Saesneg i'r Gymraeg, bydd y naratif canlynol yn cael ei gynnwys ym mharagraff 5.22: **"Bydd unrhyw dyst sydd wedi dewis rhoi tystiolaeth yn Gymraeg ond sy'n cael ei holi yn Saesneg gan Eiriolwr nad yw'n siarad Cymraeg, yn cael y dewis o gael y cwestiynau Saesneg wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg os bydd hynny'n gwneud y broses o roi tystiolaeth yn Gymraeg yn haws"**.

O ran y sylw a wnaed y dylem gyfleu yn well o fewn y Cynllun yr hyfforddiant Cymraeg y mae angen i staff GLITEM ei gyflawni, fe ymhelaethwyd ar y naratif yn Adran 8 y Cynllun i gyfeirio at yr hyfforddiant cyfarfod a chyfarach gorfodol i staff, y cwrs Ymwybyddiaeth Iaith a'r cyflwyniad i'r iaith Gymraeg fel rhan o'r cwrs 'Croeso i Gymru ar gyfer staff newydd yng Nghymru.

2: Pa welliannau, os o gwbl, y byddwch yn eu gwneud i'r Cynllun?

Cyfeiriodd pedwar sylwad yn uniongyrchol at roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun, yn enwedig o fewn yr Ynadaeth ac adeiladau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd eu hunain. Gwnaed sylwadau ynghylch creu posteri yn hysbysu'r cyhoedd am y Cynllun neu hyd yn oed yn hysbysebu'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawiadau llys a thribiwnlys yn y cyfryngau, gan gynnwys ar y teledu.

Gwnaed sylw y dylid nodi diddordeb Barnwyr Cyswllt y Gymraeg o ran cyfrifoldeb am y Cynllun. Y rheswm dros hyn yw oherwydd bod diddordeb barnwrol amlwg i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawriad llys neu dribiwnlys o ran cael mynediad at gyfiawnder.

Gwnaed sylw o ran gofyn i'r cynghorwyr cyfreithiol hysbysu pob diffynnydd a thyst o'u hawl i siarad Cymraeg mewn gwrandawriad os ydynt yn dymuno.

Gwnaed sylwad o ran a yw'r broses bresennol ar gyfer delio â chwynion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg o fewn y Gwasanaeth Profiant yn parhau i fod yr un fath.

Mi gyfeiriodd un sylw at y ffaith a fyddai GLITEM yn hysbysebu unrhyw swyddi yng Nghymru gyda'r gofyniad 'Cymraeg yn hanfodol'. Ar hyn o bryd mae'r Cynllun yn dweud y bydd "rhai swyddi yng Nghymru yn cael eu hysbysebu gyda'r Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol".

Yn olaf, gofynnodd un o'r ymatebwyr bod y Cynllun yn cynnwys cyfeiriad ffurfiol at y ffaith bod Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru wedi sefydlu 'Categori Proffesiynol Arbenigol' ar gyfer cyfieithu mewn llys/tribiwnlys o fewn eu categori aelodaeth cyfieithu ar y pryd.

Ymateb GLITEM

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun a'r gwasanaethau Cymraeg yr ydym yn eu cynnig, byddwn yn cryfhau'r naratif yn Adran 13 y Cynllun i wneud cyfeiriad uniongyrchol at ddarparu copïau caled o'r Cynllun yn y llysoedd ac ystafelloedd ymneilltuo'r ynadon yn ogystal â defnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol sydd ar gael i ni i roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun. Byddwn yn edrych ar sianeli eraill o hyrwyddo'r Cynllun a'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg drwy gydweithio â'r Uned Gyfathrebiadau ganolog i gynhyrchu fideo i'w roi ar YouTube.

Byddwn yn addasu'r naratif ym mharagraff 3.3 y Cynllun dan y pennawd 'Cyfrifoldeb am y Cynllun' i gynnwys y canlynol "***Mae gan Farnwyr Cyswllt y Gymraeg rôl bwysig i'w chwarae mewn perthynas â sicrhau bod darpariaethau'r Cynllun hwn yn cael eu gweithredu mewn gwrandawiadau llys/tribiwnlys***".

Mi wnaeth ymchwil a gynhaliwyd yn 2017 gan GLITEM gyda siaradwyr Cymraeg ddangos er mwyn hwyluso rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg mewn gwrandawiadau efallai y byddai'n fuddiol i gynghorwyr cyfreithiol, yn enwedig yn y rhannau o Gymru lle siaradir mwy o Gymraeg e.e. Canolfan Cyfiawnder Caernarfon, roi'r dewis i ddiffynyddion a thystion 'siarad Saesneg' yn hytrach na 'Cymraeg'. Byddai hyn yn cyfleu'r neges mai iaith arferol y llysoedd hyn yw Cymraeg ac nid Saesneg. Rydym yn gweld hyn fel syniad i'w ddatblygu yn hytrach na 'pholisi' ar hyn o bryd, ac felly nid ydym yn bwriadu gwneud hyn yn ddatganiad polisi yn y Cynllun.

O ran y broses gwyno ynghylch y ddarpariaeth Gymraeg o fewn awdurdodaeth profiant ein gwaith, bydd y Cynllun yn cael ei ddiwygio i ddweud y gall achwynydd, os ydyw'n anfodlon ag ymateb Rheolwr y Gofrestrfa Profiant wneud cwyn i Reolwr Clwstwr y Ganolfan Fusnes Genedlaethol yn hytrach na Chyfarwyddwr Ardal y Gwasanaeth Teulu a Phroffiant fel y nodwyd yn flaenorol.

Rydym yn cydnabod bod angen i ni wella ein proses recriwtio allanol o ran sgiliau Cymraeg. Yn 2016 bu inni ddiweddarau ein canllawiau recriwtio ar yr iaith Gymraeg ar gyfer rheolwyr ac mae'r ffurflen achos busnes ar gyfer hysbysebu swyddi yn cynnwys cwestiwn ar yr iaith Gymraeg ac os ystyriwyd hysbysebu'r swydd fel Cymraeg yn hanfodol.

Rydym wedi adnabod pedair swydd o fewn y sefydliad lle mae sgiliau Cymraeg hanfodol, sef: Swyddogion Gweinyddol, Beiliaid, Tywyswyr a Chynghorwyr Cyfreithiol (ar wahân i'r swyddi amlwg yn Uned yr Iaith Gymraeg) ac mae swydd ddisgrifiadau dwyieithog wedi'u paratoi. Fodd bynnag, bydd y sbardun i Reolwyr Gweithredol benderfynu p'un a ddylent hysbysebu swydd fel Cymraeg yn hanfodol yn seiliedig ar sicrhau bod y llys neu'r swyddogaeth yn adlewyrchu proffil ieithyddol yr ardal honno mae'n ei gwasanaethu e.e. os yw 30% o boblogaeth Caerdydd yn gallu siarad Cymraeg a bod gennym 10 cynghorydd cyfreithiol yn Llys Ynadon Caerdydd a bod 3 ohonynt yn gallu siarad Cymraeg, yna bydd angen ystyried y gofyniad hwn wrth lenwi unrhyw swydd wag.

Er mwyn cryfhau'r naratif ar recriwtio yn y Cynllun, mi awgrymodd un o'r ymatebion a gafwyd gan y farnwriaeth y dylid ychwanegu'r geiriau "*mewn ymgynghoriad gyda Chyfarwyddwr Cyflawni Cymru*" fel yn y darn diwygiedig hwn: ***Bydd rheolwyr lleol mewn ymgynghoriad gyda Chyfarwyddwr Cyflawni Cymru yn gwneud penderfyniad pa un ai a ddylid hysbysebu swydd fel bod y Gymraeg yn hanfodol ai peidio yn seiliedig ar broffil ieithyddol y llysoedd/swyddfeydd y mae'r ardal honno yn ei gwasanaethu.***

Rydym yn cytuno y dylai'r Cynllun nodi'r ffaith bod gan CCC categori arbenigol ar gyfer cyfieithu mewn llysoedd/tribiwnlysoedd. Bydd paragraff newydd 5.27 yn cael ei gynnwys yn y Cynllun yn dweud "***Mae cyfieithu ar y pryd mewn gwrandawiadau llys/tribiwnlys yn sgil arbenigol ac fe'i cydnabyddir felly trwy categori aelodaeth arbenigol gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru***".

3. A oes unrhyw beth y dylem eu cynnwys yn y Cynllun a fydd yn ein cynorthwyo i ddarparu gwasanaeth Cymraeg gwell mewn Cymru sy'n newid yn barhaus?

Cafwyd dau sylw cadarnhaol a wnaeth gyfeirio'n benodol at y ffaith bod y Cynllun yn nodi y byddai GLITEM yn defnyddio cyfieithwyr cymwysedig sy'n aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru os na fyddai'n gallu diwallu'r anghenion cyfieithu yn fewnol.

Cafwyd un sylw gan ynad yn awgrymu y dylai GLITEM ystyried cyhoeddi ei restr ei hun o dermau Cymraeg gan y byddai'n cynorthwyo'r ynadaeth gyda'u gwaith. Gwnaed y sylw gan werthfawrogi y gallai safoni termau'r sector gweinyddu cyfiawnder gymryd peth amser i'w gwblhau.

Ymateb GLITEM

Mae Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg wedi comisiynu gweithgor i edrych ar safoni termau a ddefnyddir yn y sector gweinyddu cyfiawnder ac mae'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru. Cafodd 1,600 o dermau a ddefnyddir yn y sector gweinyddu cyfiawnder eu safoni gan yr hen Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2013, ac er bod y gweithgor cyfredol wedi dechrau ar y gwaith, byddem yn awgrymu dwyn sylw'r Ynadaeth at y termau hynny sydd eisoes wedi'u safoni.

Casgliad a chymau nesaf

Mae GLITEM yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r papur ymgynghori. Ystyriwyd yr holl sylwadau a gafwyd yn ofalus ac maent wedi'u cynnwys yn y Cynllun diwygiedig, lle bo hynny'n briodol. Mae'r Cynllun diwygiedig wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad.

Rydym yn parhau i gydnabod pwysigrwydd, arwyddocâd diwylliannol a gwerth yr iaith Gymraeg, ac rydym yn edrych ymlaen at y cyfleoedd fydd yn dod i'n rhan yn sgil ein rhaglen ddiwygio i ddarparu gwasanaethau digidol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddwn yn parhau i weithio â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, asiantaethau partner eraill o fewn yr Adran, y Farnwriaeth, yr Ynadaeth a rhanddeiliaid eraill yn y system gyfiawnder i wella a datblygu ein darpariaeth iaith Gymraeg ymhellach.

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyirff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn cael eu nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr yr ymgynghoriad

1. Ei Hanrhydedd y Barnwr Mererid Edwards, Barnwr Cyswllt yr Iaith Gymraeg
2. Ei Anrhydedd y Barnwr Gareth Jones, Barnwr Teulu Dynodedig Gogledd Cymru
3. Y Barnwr Barry Clarke, Barnwr Rhanbarthol Tribiwnlysoedd Cyflogaeth Cymru
4. Y Barnwr Anne Curran, Barnwr Rhanbarthol Tribiwnlysoedd Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant Cymru
5. Elfed ap Gomer YH
6. David Subacchi YH (fel ynad unigol ac ar ran Fforwm Cadeiryddion Meinciau Cymru)
7. Emlyn Lewis YH
8. Rhys Davies YH
9. Stephen Rogers YH ar ran Mainc Gorllewin Morgannwg
10. Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
11. Mudiad Dathlu'r Gymraeg
12. Peter Strathearn, Adran Gwaith a Phensiynau
13. Adam Green ar ran Heddlu De Cymru
14. Hugh Simkiss, Pennaeth Newid (Gwaith Sifil, Teulu a Thribiwnlysoedd), GLITEM
15. Nick Albrow, Pennaeth Newid (Gwaith Troseddol), GLITEM
16. Eurgain Jarvis, Swyddog Polisi yr Iaith Gymraeg GLITEM
17. Terry Eastman, GLITEM (aelod o staff)

Yn ogystal â'r ymatebwyr uchod, dymuna GLITEM gydnabod a diolch i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg am eu cymorth a'u cyngor yn ystod y diwygiadau i'n Cynllun Iaith Gymraeg.



© Hawlfraint y Goron 2017

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd arnoch angen caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Gellir gofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill drwy e-bostio
MOJWLSrevision@justice.gsi.gov.uk